# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’w hateb ar 7 Gorffennaf 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 23 Mehefin 1999

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Gyllid

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cyfanswm y gyllideb ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru a pha gyfran o’r incwm hwnnw sy’n deillio o’r ffioedd dysgu a godir ar fyfyrwyr. (OAQ329VB)

**2. Brian Gibbons (Aberafan);** Beth yw ei chynlluniau i leddfu’r gofidiau a fynegwyd yn y bamffled a gyhoeddwyd gan Ymgyrch y Cymunedau Glofaol (Cymru) ar arian o Ewrop a phroblem ychwanegedd. (OAQ317VB)

**3. Nicholas Bourne (Y Canolbarth a’r Gorllewin);** Faint o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol fydd yn cael ei defnyddio i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer projectau’r UE. (OAQ323JS)

**4. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff hi sicrhau bod Aelodau’n cael gweld yr holl gyfrifiadau a wnaed wrth gyfrif y dyraniad arian bloc i’r Cynulliad yn ôl Fformwla Barnett a bod yr holl arian rhanbarthol o’r UE yn cael ei gofnodi ar wahân er mwyn dangos yn glir ei fod yn ychwanegol at floc Barnett. (OAQ338JS)

**5. David Davies (Mynwy);** Beth yw’r amcangyfrif o gost adnewyddu Adeilad Pierhead. (OAQ315VB)

**6. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw’r gyllideb arfaethedig ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf. (OAQ328VB)

**7. David Davies (Mynwy);** Beth yw costau blynyddol rhedeg adeilad Pierhead ac a wnaiff hi wneud datganiad ar hyn. (OAQ314VB)

**8. Mick Bates (Maldwyn);** A oes yna fecanweithiau y gall y Cynulliad eu defnyddio i sicrhau bod yna wasanaethau Canolfannau Cynghori digonol yng Nghymru. (OAQ325AG)

**9. Nicholas Bourne (Y Canolbarth a’r Gorllewin)**; Pa arbedion a wnaed yn sgil diddymu’r cwangos yng nghyllideb eleni. (OAQ322)

Cwestiynau a gyflwynwyd ar 23 Mehefin 1999

I ofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gynnal a datblygu cyfraniad y diwydiant twristiaeth at economi Cymru. (OAQ336VB)

**2. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i ymchwilio i’r economi ddu yng Nghymru ac a fyddai’n barod i wneud datganiad ar ei heffaith ar GDP. (OAQ316VB)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw sefyllfa’r trafodaethau â’r Ford Motor Company am eu ffatri ym Mhen-y-bont ac a fyddai’n barod i wneud datganiad. (OAQ326VB)

**4. Brian Gibbons (Aberafan);** A oes ganddo gynlluniau penodol i ddelio â’r anfanteision a grewyd gan effaith gwerth uchel y bunt a phellter daearyddol ar y diwydiant cynhyrchu yng Nghymru. (OAQ318VB)

**5. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i sefydlu Banc Datblygu i Gymru i hybu twf a datblygiad cwmnïau cynhenid. (OAQ335VB)

**6. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa fecanweithiau y mae’n bwriadu eu creu i sicrhau bod cyrsiau yn y dyfodol ym mhrifysgolion Cymru yn cael eu dewis yn ôl anghenion y datblygiadau economaidd a diwydiannol a arfaethir yn y Strategaeth Datblygu Economaidd a fabwysiadwyd gan y Cynulliad. (OAQ339JS)

**7. Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff addo y bydd arian amcan un ar gael i fudiadau gwirfoddol lleol. (OAQ334VB)

**8. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa gynlluniau sydd ganddo i hysbysebu’n ehangach i fusnesau yng Nghymru fanteision deddf sy’n caniatáu iddynt godi llog ar daliadau hwyr. (OAQ331VB)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw hynt yr ymdrechion i ennyn diddordeb cyflogwyr yn safle Felindre, Abertawe. (OAQ327VB)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Beth mae wedi'i glywed oddi wrth aelodau'r fasnach drwyddedig yng Nghymru o ran y baich economaidd cynyddol ar eiddo trwyddedig bach. (OAQ330VB)

**11. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Pa fesurau sy'n cael eu gwneud i ddatblygu paratoadau ar y cyd rhwng y Cynulliad ac WLGA ar gyfer creu ymdrech gydlyn mewn perthynas ag arian amcan un. (OAQ333JS)

**12. Cynog Dafis (Y Canolbarth a'r Gorllewin);** Pa drefniadau sydd ganddo mewn golwg i ddarparu i'r Cynulliad wybodaeth fanwl a gwrthrychol ynglyn ag effaith polisïau datblygu economaidd ar gyflogaeth, lles cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol. (OAQ332JS) [w]

**13. Carwyn Jones (Pen-y-bont);** Pa gynlluniau sydd ganddo i ehangu Canolfan Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel. (OAQ319VB)

**14. Nicholas Bourne (Y Canolbarth a'r Gorllewin);** Pa fesurau sydd ganddo mewn golwg i hybu swyddi yn y Canolbarth a'r Gorllewin. (OAQ321JS)

**15. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa strategaeth fydd yn cael ei dilyn yn y frwydr yn erbyn amddifadedd yng Nghymru. (OAQ340VB)